# Timau Troseddau Ieuenctid Canolbarth a Gorllewin Cymru
# Polisi a Gweithdrefnau

## *Polisi a Gweithdrefn Diogelu Cymunedol a Digwyddiadau Difrifol*
### *Ebrill 2023*

## BWRDD DIOGELU CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

| Fersiwn | Dyddiad adolygu | Perchennog | Dyddiad y'i cymeradwywyd gan y bwrdd gweithredol | Dyddiad adolygu |
|---|---|---|---|---|
| F1 | 17 Hydref 2021 | Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru | 17 Hydref 2019 | 17 Hydref 2020 |
| F2 | 18 Gorffennaf 2025 | Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru | 18 Gorffennaf 2023 | 18 Gorffennaf 2024 |
| F3 | | Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru | 21 Hydref 2025 | 21 Ionawr 2028 |

| | |
|---|---|
| Enw'r polisi / gweithdrefn / canllaw | Polisi a Gweithdrefn Diogelu Cymunedol a Digwyddiadau Difrifol<br>Ebrill 2023 |
| Cyfnod ymgynghori | 10 Mai 2023 – 26 Mai 2023 |
| Dyddiad cyhoeddi | |
| Dyddiad adolygu | |

## Lledaenu / gweithredu

Gofynnir i asiantaethau wneud y canlynol er mwyn sicrhau gweithredu'r polisi / gweithdrefn / canllaw hwn

| | |
|---|---|
| Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru | • Ei roi ar wefan Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn yr adran bolisi<br>• Ei anfon at asiantaethau partner i'w ddosbarthu<br>• Ei ddosbarthu i arweinwyr hyfforddiant asiantaethau partner i'w gynnwys mewn hyfforddiant fel y bo'n briodol<br>• Diweddaru hyfforddiant perthnasol i adlewyrchu polisi / gweithdrefn / canllawiau |
| Pob asiantaeth partner | • Dosbarthu'r polisi / gweithdrefn / canllawiau i bob arweinydd gwasanaeth / pennaeth gwasanaeth / arweinydd diogelu / aelod o staff drwy sianeli cyfathrebu priodol, e.e. grwpiau gweithredol lleol<br>• Ei osod ar eich gwefan eich hun a chynnwys dolen i wefan Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru https://www.cysur.cymru/<br>• Diweddaru polisïau a gweithdrefnau mewnol i adlewyrchu polisi / gweithdrefn / canllawiau yn ôl yr angen<br>• Diweddaru hyfforddiant mewnol i adlewyrchu'r broses yn ôl yr angen |

## Sicrwydd

Gofynnir i asiantaethau ymgymryd â'r canlynol er mwyn rhoi sicrwydd i Fwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru o ran lledaenu a gweithredu'r polisi hwn:

| | |
|---|---|
| **Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru** | • Ceisio sicrwydd gan asiantaethau partner bod gweithredu wedi digwydd |
| **Asiantaethau partner** | • Rhoi sicrwydd i Fwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru bod y gweithrediad uchod wedi'i gwblhau |

# Cynnwys


1. Cyflwyniad ........................................................................................ 4–5

2. Adnabod a hysbysu'n lleol am ddigwyddiadau diogelu cymunedol a digwyddiadau difrifol l ………………......................................................…… 6–7

3. Gwneud penderfyniadau lleol …………………………..…………………… 7–8

4. Fforwm proffesiynol amlasiantaethol ……………………….............… 8

5. Rhannu deilliannau dysgu ac argymhellion …………….............………. 8

6. Camau diogelu cymunedol a digwyddiadau difrifol ……………….....…… 9

Atodiad 1 – Ymarfer proffesiynol parhaus ………………………………………. 10

Atodiad 2 – Trosedd sy'n gysylltiedig â therfysgaeth …………………..……….. 11

Atodiad 3 – Unigolyn ifanc wedi dioddef anaf posibl sy'n bygwth bywyd …..…. 12

Atodiad 4 – Canllawiau ar ddiffinio ymgais i gyflawni hunanladdiad …………. 13

Atodiad 5 – Adolygiad achos difrifol trefniadau amlasiantaethol ar gyfer amddiffyn y cyhoedd ……………………......................................………. 14

# Diogelu Cymunedol a Digwyddiadau Difrifol

## 1. Cyflwyniad

Mae'r canllawiau hyn yn dod â Hysbysiad Digwyddiadau Difrifol y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid: gweithdrefnau gweithredu safonol ar gyfer gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru a Lloegr (Mawrth 2020) ochr yn ochr â threfniadau diogelu rhanbarthol ar gyfer timau troseddau ieuenctid.

Hysbysiad digwyddiadau difrifol y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid

Yn 2021, bu'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn adolygu sut yr oedd cuddwybodaeth yn erbyn digwyddiadau difrifol a oedd yn digwydd yn y gymuned yn cael ei chasglu fel rhan o'i gyfrifoldeb statudol am oruchwylio. Tynnodd hyn sylw at y ffaith, heb broses hysbysu am ddigwyddiadau difrifol yn y gymuned, fod gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid oruchwyliaeth gyfyngedig o'r digwyddiadau difrifol hyn. Mae hyn yn cyfyngu ar effeithiolrwydd ymatebion amserol a phriodol yn lleol ac yn genedlaethol, defnyddio cefnogaeth ymarferol a, phan fo angen, cysylltu â gweinidogion. Mae hefyd yn cyfyngu ar gasglu data cenedlaethol lle gellid tynnu darlun mwy cyflawn o berfformiad, tueddiadau, themâu a gwersi a ddysgwyd.

Yn dilyn adolygiad o'r weithdrefn hysbysu gwirfoddol ac ymgynghori â'r sector, gwnaed y penderfyniad i wneud hysbysiadau digwyddiadau difrifol ledled Cymru a Lloegr yn orfodol o 1 Ebrill 2022 (fel y'i cynhwysir yn nhelerau ac amodau grant craidd cyfiawnder ieuenctid). Hysbysu am ddigwyddiadau difrifol: gweithdrefnau gweithredu safonol ar gyfer gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid – GOV.UK (www.gov.uk)

Trefniadau diogelu rhanbarthol

**Nid yw'r** gweithdrefnau gweithredu safonol uchod yn disodli unrhyw ofynion neu bolisïau diogelu lleol, rhanbarthol na chenedlaethol. Yn wir, mae angen gwneud penderfyniadau ynghylch a ddylid adolygu digwyddiadau a'r gwasanaethau perthnasol sy'n cael eu darparu i blant yr effeithir arnynt yn lleol, yn dilyn trafodaethau amlasiantaethol, lle bynnag y bo'n briodol, a sut mae gwneud hynny.

Datblygwyd y **'Fframwaith Dysgu ac Adolygu'** gyda'r bwriad y bydd byrddau diogelu rhanbarthol a'u hasiantaethau partner yn darparu amgylchedd lle gall ymarferwyr a'u hasiantaethau ddysgu o'u gwaith achos eu hunain, a gwaith achos eraill, ac o ffynonellau fel archwiliadau, ymchwil ac arolygu.

Os bydd y digwyddiadau canlynol yn digwydd, dylid ystyried atgyfeiriad ar gyfer adolygiad diogelu unedig sengl:

1. **Meini prawf ar gyfer adolygiad ymarfer plant:**

Lle mae cam-drin neu esgeulustod plentyn yn hysbys neu'n cael ei amau o fewn ardal y bwrdd diogelu, ac –

a) mae'r plentyn:

i) wedi marw; neu

ii) wedi cael anaf a allai beryglu ei fywyd; neu

iii) wedi dioddef nam difrifol a pharhaol i iechyd neu ddatblygiad.

2. Mae marwolaeth unigolyn 16 oed neu hŷn wedi deillio, neu mae'n ymddangos ei bod wedi deillio o drais, cam-drin neu esgeulustod gan:

a) unigolyn y mae'n perthyn iddo neu yr oedd, neu y bu, mewn perthynas bersonol agos ag ef, neu

b) aelod o'r un aelwyd; mae hyn yn cynnwys lle mae dioddefwr wedi cymryd ei fywyd ei hun (hunanladdiad) a bod yr amgylchiadau'n peri pryder, er enghraifft, yn dioddef o gam-drin domestig.

*Noder: Lle mae testun yr adolygiad wedi cymryd ei fywyd ei hun, mae angen bod yn ofalus i archwilio pob cyfle i sefydlu'r gadwyn o ddigwyddiadau ac adnabod cam-drin posibl, neu gyflawniad a allai fod wedi cyfrannu at y penderfyniad.*

3. Cyflawnir lladdiad, ac mae'r troseddwr honedig wedi bod mewn cysylltiad â gwasanaethau iechyd meddwl sylfaenol, eilaidd neu drydyddol o fewn y flwyddyn ddiwethaf.

Ystyrir adolygiadau diogelu unedig sengl gan Is-grŵp Adolygu Achosion CYSUR.

Fodd bynnag, at ddibenion proses diogelu cymunedol a digwyddiadau difrifol, bydd y rhan fwyaf o achosion sy'n sbarduno'r weithdrefn hon yn gofyn am gynnull ***'Fforwm Proffesiynol Amlasiantaeth'***. Mae Canllawiau Statudol yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (Hydref 2024) yn disgrifio proses y fforwm proffesiynol amlasiantaethol fel a ganlyn:

*9.10 Mae fforymau proffesiynol amlasiantaethol yn fecanwaith ar gyfer cynhyrchu dysgu sefydliadol, gwella ansawdd gwaith gyda theuluoedd, a chryfhau gallu gwasanaethau i gadw plant ac oedolion yn ddiogel. Yn unol â rheoliad 3(2)(i)57, mae'n ofynnol i fyrddau diogelu drefnu a hwyluso rhaglen flynyddol y fforymau proffesiynol amlasiantaethol. Gellir eu cynnull i archwilio cyfleoedd dysgu mewn achosion nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cwblhau adolygiad diogelu unedig sengl. Maent yn defnyddio gwybodaeth am achosion, canfyddiadau o archwiliadau diogelu, arolygiadau, adolygiadau, a dysgu arall sy'n deillio o Storfa Ddiogelu Cymru i ddatblygu a lledaenu dysgu i wella gwybodaeth ac arfer lleol, ac i lywio blaenoriaethau archwilio a hyfforddi'r bwrdd diogelu yn y dyfodol.*

*9.14 Mae gan fforymau proffesiynol amlasiantaethol ddau brif bwrpas:*

*a) Dysgu o achosion: trafodaeth, ymgynghori a myfyrio wedi'i hwyluso gan ymarferwyr, rheolwyr, neu grwpiau craidd, gan ddefnyddio dull systemau o archwilio a dadansoddi achosion unigol cyfredol neu achosion nad ydynt yn weithredol mwyach. Gall y rhain gynnwys achosion cymhleth lle bu canlyniadau da, achosion cyfredol sydd wedi methu symud ymlaen, neu achosion sy'n achosi pryder neu ddiddordeb proffesiynol nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer adolygiad diogelu unedig sengl.*
*b) Lledaenu gwybodaeth a chanfyddiadau newydd: o archwiliadau diogelu amlasiantaeth ac o adolygiadau diogelu unedig sengl, arolygiadau neu ffynonellau lleol neu genedlaethol eraill, er mwyn sicrhau dysgu a datblygiad amlbroffesiynol lleol parhaus.*

Er mwyn eglurder, bydd y term generig a chyfreithiol 'y tîm troseddau ieuenctid' yn berthnasol i'r amrywiol dimau a gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru.

Pan fydd plentyn / unigolyn ifanc sy'n destun ymyriadau atal tîm troseddau ieuenctid / gwarediadau y tu allan i'r llys / gorchymyn statudol yn rhan o ddigwyddiad diogelu neu ddigwyddiad difrifol (neu yr honnir ei fod wedi bod yn rhan o ddigwyddiadau o'r fath), mae'n bwysig bod unrhyw werthusiad o'r amgylchiadau cysylltiedig yn ystyried y rhyngweithio ag unrhyw asiantaethau ehangach ac nad yw'n canolbwyntio ar rôl y tîm troseddau ieuenctid yn unig. Gall gwasanaethau gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) gofal cymdeithasol plant, addysg ac iechyd.

Diben y ddogfen hon yw nodi beth y mae'n ofynnol i staff sy'n gweithio yn y tîm troseddau ieuenctid ei wneud os yw plentyn yn rhan o ddigwyddiad diogelu neu ddigwyddiad difrifol tra'i fod o dan oruchwyliaeth neu ar lwyth achosion y tîm troseddau ieuenctid.

## 2. <u>Adnabod a hysbysu'n lleol am ddigwyddiadau diogelu cymunedol a digwyddiadau difrifol</u>

Mae'r rhestr o ddigwyddiadau diogelu wedi'i halinio â gofynion Canllawiau Statudol Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl (Cymru). Cyfrifoldeb rheolwr y tîm troseddau ieuenctid neu'r rheolwr gweithredol yw nodi digwyddiad diogelu neu ddigwyddiad difrifol, a hysbysu'r canlynol o fewn 24 awr:

- Cadeirydd bwrdd rheoli'r tîm troseddau ieuenctid a/neu swyddog dynodedig perthnasol arall
- Cadeirydd y grŵp gweithredol lleol / pennaeth gwasanaethau plant
- Cyfarwyddwr addysg / prif swyddog addysg
- Pennaeth gwasanaeth â phortffolio tîm troseddau ieuenctid

**<u>Rhaid</u>** i'r hysbysiadau ddigwydd os yw plentyn / unigolyn ifanc:

- wedi bod yn rhan o <u>ddigwyddiad diogelu</u> tra ar lwyth achosion y tîm troseddau ieuenctid, neu hyd at 20 diwrnod calendr yn dilyn diwedd goruchwyliaeth y tîm troseddau ieuenctid

- wedi'i gyhuddo o gyflawni un o'r <u>digwyddiadau difrifol</u> canlynol; mae hyn yn cynnwys y plant / pobl ifanc hynny nad oeddent o dan oruchwyliaeth y tîm troseddau ieuenctid pan gawsant eu cyhuddo

**Mae'r tabl isod yn nodi'r digwyddiadau y mae'n rhaid eu hadrodd:**

| DIGWYDDIAD DIOGELU | DIGWYDDIAD DIFRIFOL |
|---|---|
| **Unigolyn ifanc o dan oruchwyliaeth / llwyth achosion tîm troseddau ieuenctid (neu o fewn 20 diwrnod calendr i ddiwedd goruchwyliaeth tîm troseddau ieuenctid):** | **Unigolyn ifanc (boed o dan oruchwyliaeth / llwyth achosion tîm troseddau ieuenctid ai peidio) wedi'i gyhuddo o'r canlynol:** |
| **Yn marw** tra'i fod ar lwyth achosion y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, neu hyd at 20 diwrnod calendr yn dilyn diwedd goruchwyliaeth y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid (hefyd yn berthnasol i hysbysu digwyddiadau difrifol y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid) | **Llofruddiaeth / dynladdiad** (hefyd yn berthnasol i hysbysiad digwyddiadau difrifol y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid) |
| **Yn gwneud ymgais i gyflawni hunanladdiad** (wedi'i lywio gan asesiadau gan glinigwyr iechyd neu weithwyr proffesiynol iechyd meddwl lleol) – **Atodiad 5** | **Treisio** (hefyd yn berthnasol i hysbysiad digwyddiadau difrifol y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid) |
| **Yn ddioddefwr o drais** (lle mae honiad wedi'i wneud i'r heddlu) | **Trosedd sy'n gysylltiedig â therfysgaeth**, gan gynnwys unrhyw drosedd o dan ddeddfwriaeth terfysgaeth neu drosedd cynllwynio, ceisio, cynorthwyo, annog, cwnsela, caffael neu annog, a throsedd o dan ddeddfwriaeth terfysgaeth – gweler Atodiad 2 (hefyd yn berthnasol i hysbysu digwyddiadau difrifol y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid) |
| **Wedi dioddef anaf a allai fygwth bywyd, naill ai wedi'i ddioddef gan weithredoedd eraill, neu wedi'i achosi gan anffawd,** | **Niwed corfforol difrifol neu glwyfo (adrannau 18 neu 20).** Cyfeiriwch at |

| | |
|---|---|
| **cymryd risgiau ymddygiad gwrthgymdeithasol neu hunan-niweidio** | ganllawiau'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ynghylch sut y mae hyn yn cael ei bennu. |
| **Wedi dioddef nam difrifol a pharhaol o ran iechyd a datblygiad – Atodiad 4** | **Herwgipio / camgarcharu neu herwgipio plentyn** |
| | **Llosgi bwriadol gyda'r bwriad i beryglu bywyd** |

***Rhaid i'r tîm troseddau ieuenctid sicrhau, lle bo'n berthnasol, bod mesurau priodol wedi'u rhoi ar waith i sicrhau diogelwch a lles plant, pobl ifanc ac oedolion yr effeithiwyd arnynt gan y digwyddiad, gan gynnwys atgyfeirio drwy Ffurflen Adroddiad Amlasiantaethol at dîm asesu gofal plant yr awdurdod lleol (tîm asesu gofal plant).***

**<u>Ymholiadau'r cyfryngau a gwybodaeth bellach</u>**

Mae digwyddiadau diogelu a gwarchod y cyhoedd yn aml yn denu sylw'r cyfryngau. Rhaid i dimau troseddau ieuenctid Canolbarth a Gorllewin Cymru ddilyn gweithdrefnau'r awdurdodau lleol ar drin y cyfryngau. Pan fydd digwyddiad lleol yn dod yn fater cenedlaethol, mae'n bosibl y bydd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn ceisio rhagor o fanylion (o fewn cylch gwaith eu cyfrifoldebau monitro system gyfan, Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998).

## 3. <u>Gwneud penderfyniadau lleol</u>

Yn dilyn hysbysiad o ddiogelu cymunedol a digwyddiadau difrifol drwy e-bost â'r pennawd ***'Brys – Diogelu Critigol a Digwyddiad Difrifol'***, bydd cadeirydd bwrdd rheoli tîm troseddau ieuenctid, ynghyd â'r pennaeth gwasanaeth cyfrifol ar gyfer y tîm troseddau ieuenctid, pennaeth gwasanaethau plant a chyfarwyddwr / arweinydd gwasanaethau addysg, yn penderfynu a ydyw'r digwyddiad yn gofyn am adolygiad o ymarfer y tîm troseddau ieuenctid ai peidio. Bydd rheolwr gwasanaethau'r tîm troseddau ieuenctid yn cofnodi'r penderfyniad hwn fel cyswllt ***'goruchwyliaeth rheolaeth'*** yn erbyn y cofnod achos perthnasol. Gall y broses gwneud penderfyniadau hon ddigwydd drwy e-bost, ond bydd rheolwr gwasanaethau'r tîm troseddau ieuenctid yn atodi'r cofnod o'r penderfyniad a wnaed drwy e-bost at y cofnod achos electronig.

Bydd y tîm troseddau ieuenctid yn gwneud trefniadau i'r achos gael ei reoli / diogelu'n briodol o ran risg i gynnwys unrhyw gamau gweithredu gofynnol, e.e. cynyddu lefelau cyswllt, atgyfeiriadau at asiantaethau priodol eraill ac ati yn unol â'u fframwaith polisi rheoli risg lleol.

Os gwneir penderfyniad bod angen adolygu'r digwyddiad, dylid hysbysu'r arweinydd diogelu lleol, a rhaid cwblhau adroddiad rheoli lleol o fewn 20 diwrnod gwaith i gynnal yr adolygiad. Fel arfer, rheolwr gweithredol fydd awdur yr adroddiad / y prif adolygydd. Bydd gofyn i asiantaethau partner ddarparu gwybodaeth berthnasol i awdur yr adroddiad / y prif adolygydd, a chynorthwyo lle bo angen gyda'r adroddiad rheoli lleol. Bydd yr adroddiad rheoli lleol yn cael ei ddarparu i gadeirydd bwrdd rheoli'r tîm troseddau ieuenctid ac arweinydd diogelu'r awdurdod lleol. Yna mae angen penderfyniad i gadarnhau a ddylid cyfeirio'r mater at yr is-grŵp adolygu achosion i ystyried a ydyw'r meini prawf ar gyfer adolygiad diogelu unedig sengl neu fforwm proffesiynol amlasiantaethol wedi'u bodloni. Dylid hysbysu'r grŵp gweithredol lleol am yr atgyfeiriad.
Ar ôl ystyried yr atgyfeiriad, bydd yr is-grŵp adolygu achosion yn gwneud argymhelliad ynghylch a ddylid cynnal proses adolygiad diogelu unedig sengl, fforwm proffesiynol amlasiantaethol neu broses amgen. Bydd cadeirydd y bwrdd diogelu plant rhanbarthol, ynghyd â chadeirydd y bartneriaeth diogelwch cymunedol berthnasol, yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch a ddylid cynnal adolygiad diogelu unedig sengl neu fforwm proffesiynol amlasiantaethol, os yw'r achos yn ymwneud â marwolaeth sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig.

Rhagwelir y bydd unrhyw ddysgu ehangach yn arwain at fforwm proffesiynol amlasiantaethol ar y lefel leol yn y rhan fwyaf o achosion. Bydd y broses fforwm proffesiynol amlasiantaethol yn cael ei chynnal

ar y cyd gan yr asiantaethau sy'n ymwneud â'r achos, gyda chymorth y bwrdd diogelu rhanbarthol, ond rhaid adrodd y canlyniad hefyd i fwrdd rheoli'r tîm troseddau ieuenctid a'r grŵp gweithredol lleol. Lle bu digwyddiad diogelu critigol a fyddai'n sbarduno adroddiad rheoli lleol, a lle mae adolygiad diogelu unedig sengl hefyd yn cael ei ystyried, byddai proses yr adolygiad diogelu unedig sengl yn cael blaenoriaeth, a byddai'r adroddiad rheoli lleol yn mynd rhagddo ond yn ffurfio corff tystiolaeth y tîm troseddau ieuenctid tuag at yr adolygiad diogelu unedig sengl.

Ar ôl cael argymhelliad yr is-grŵp adolygu achosion mewn perthynas â'r atgyfeiriad, gall cadeirydd y bwrdd rhanbarthol diogelu plant ddod i'r casgliad nad oes angen proses adolygu ychwanegol (h.y. adolygiad diogelu unedig sengl neu fforwm proffesiynol amlasiantaethol) yn ogystal â'r adroddiad rheoli lleol. Os felly, bydd cofnodion rheoli achosion y tîm troseddau ieuenctid yn cael eu diweddaru i adlewyrchu bod y broses briodol wedi'i chwblhau. Cydnabyddir bod angen i ddulliau fod yn gymesur, ar ôl ystyried yr wybodaeth a ddarperir gan y tîm troseddau ieuenctid, y gellir ystyried bod adolygiad 'ysgafnach' yn briodol.

**Dysgu wrth y plentyn / unigolyn ifanc a rhieni / gofalwyr**

Wrth adolygu digwyddiadau, mae'n bwysig rhoi cyfle i'r plentyn / unigolyn ifanc, yn ogystal â'i rieni / gofalwyr, rannu eu barn am yr hyn a ddigwyddodd, a gweithio gyda nhw i nodi a rhoi ar waith y ffactorau cymorth ac amddiffynnol a fydd yn eu helpu i gadw'n ddiogel ac atal digwyddiadau yn y dyfodol.

| Llwybrau atgyfeirio a dogfennau i'w dilyn a'u cwblhau yn ôl yr angen |
|---|
| 1a Referral to Sub Group (Child).docx |
| 1b Referral to Sub Group (Adult).docx |

## 4. Fforwm proffesiynol amlasiantaethol

- Penodir cadeirydd fforwm proffesiynol amlasiantaethol *(Noder: os yw'n briodol i amgylchiadau'r achos, awdur yr adroddiad rheoli lleol fydd hwn fel arfer)* a chynullir panel o gynrychiolwyr yr asiantaethau sy'n ymwneud â'r achos. Bydd y panel yn cynhyrchu adroddiad yn nodi'r arferion da a'r meysydd dysgu a nodwyd drwy'r broses, ynghyd ag argymhellion i gefnogi gwelliannau arferion yn y dyfodol.

Wrth fynd gerbron y fforwm proffesiynol amlasiantaethol, rhaid i bob asiantaeth sicrhau eu bod yn cael eu cynrychioli gan uwch-swyddog sy'n annibynnol o'r achos a all gyfrannu'n gadarnhaol at yr adolygiad ac unrhyw argymhellion dysgu ac ymarfer posibl a all godi o'r fforwm. Y diben yw nodi dysgu ar gyfer ymarfer yn y dyfodol drwy archwilio manylion a chyd-destun gwaith asiantaethau gyda phlentyn / unigolyn ifanc a'u teulu.

Bwriad yr allbwn o'r fforwm yw creu dysgu proffesiynol a sefydliadol a hyrwyddo gwelliant mewn arferion rhyngasiantaethol o ran diogelu a gwarchod y cyhoedd yn y dyfodol.

## 5. Rhannu deilliannau dysgu ac argymhellion

Mae'n bwysig bod gwersi a ddysgir yn dilyn digwyddiadau difrifol yn cael eu rhannu fel y gellir cymryd camau i atal digwyddiadau tebyg rhag digwydd yn y dyfodol. Bydd adroddiad cryno o'r deilliannau dysgu a'r argymhellion o'r fforwm proffesiynol amlasiantaethol yn cael ei baratoi a'i ddosbarthu ar ffurf

drafft i'w gytuno gan y cyfranogwyr. Ar ôl ei gwblhau, bydd yr adroddiad yn cael ei rannu â bwrdd rheoli'r tîm troseddau ieuenctid. Bydd yr is-grŵp adolygu achosion hefyd yn cael yr adroddiad wedi'i gwblhau i hwyluso lledaenu unrhyw ddysgu sy'n berthnasol i ranbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Bydd rheolwr gwasanaethau'r tîm troseddau ieuenctid yn gyfrifol am sicrhau bod unrhyw ddeilliannau dysgu ac argymhellion yn cael eu gweithredu o fewn y gwasanaeth, a'u bod yn cael eu rhannu ag aelodau staff. Mae pob asiantaeth bartner sy'n rhan o'r adolygiad yn gyfrifol am weithredu a rhannu deilliannau dysgu ac argymhellion o fewn eu sefydliadau eu hunain.

## 6. Camau diogelu cymunedol a digwyddiadau difrifol

**Cam 1**

- Y tîm troseddau ieuenctid yn nodi achos y mae angen ei adolygu ac yn anfon Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaethol wedi'i chwblhau i dîm asesu gofal plant yr awdurdod lleol.
- Cadeirydd bwrdd rheoli'r tîm troseddau ieuenctid, pennaeth gwasanaethau plant, cyfarwyddwr addysg yr adran addysg, pennaeth y gwasanaeth – pob un wedi'i hysbysu gan reolwr gwasanaethau'r tîm troseddau ieuenctid.
- Penderfyniad wedi'i wneud i ymgymryd ag adroddiad rheoli lleol.
- Y broses adolygiad diogelu unedig sengl i gael blaenoriaeth os ydyw'n cael ei hystyried yn briodol.

**Cam 2**

- Rheolwr gwasanaethau'r tîm troseddau ieuenctid i benodi swyddog adolygu'r tîm troseddau ieuenctid yn ôl yr angen a hysbysu arweinydd diogelu ar gyfer yr awdurdod lleol.
- Pob asiantaeth yn penodi unigolyn ar lefel rheoli briodol i gasglu ymglymiad eu hasiantaeth eu hunain â'r plentyn, ac i gynorthwyo gyda chwblhau'r adroddiad rheoli lleol.

**Cam 3**

- Adroddiad rheoli lleol i'w gwblhau a'i ddarparu i gadeirydd bwrdd rheoli'r tîm troseddau ieuenctid ac arweinydd diogelu'r awdurdod lleol i'w ystyried, a phenderfynu a ydyw'n cael ei gyfeirio at yr is-grŵp adolygu achosion ar gyfer adolygiad diogelu unedig sengl neu fforwm proffesiynol amlasiantaeth.

**Cam 4**

- Os cytunir, panel fforwm proffesiynol amlasiantaethol o'r asiantaethau sy'n ymwneud â'r achos yn ymgynnull.
- Cynnal proses y fforwm proffesiynol amlasiantaethol i nodi'r dysgu sydd ar gael.
- Adroddiad cryno wedi'i baratoi o'r argymhellion a'r deilliannau dysgu.

**Cam 5**

- Cyflwyno adroddiad cryno i'r grŵp gweithredol lleol, i ystyried argymhellion a deilliannau dysgu sy'n effeithio ar arfer lleol a darparu gwasanaethau.
- Adroddiad cryno gan y fforwm proffesiynol amlasiantaethol i'w gyflwyno i fwrdd rheoli'r tîm troseddau ieuenctid er mwyn ei ystyried a'i weithredu.
- Rhannu adroddiad cryno â'r is-grŵp adolygu achosion i ledaenu unrhyw ddysgu rhanbarthol.

**Cam 6**

- Y bwrdd rheoli a grŵp gweithredol lleol y tîm troseddau ieuenctid yn sicrhau bod deilliannau dysgu ac argymhellion yn cael eu gweithredu trwy ddiweddariadau rheolaidd a ddarperir gan reolwr gwasanaethau'r tîm troseddau ieuenctid.
- Yr asiantaethau partner i fod yn gyfrifol am weithredu deilliannau dysgu ac argymhellion o fewn eu sefydliadau eu hunain.

**ATODIAD 1**

**Ymarfer proffesiynol parhaus**

Mae rheoli, asesu, adrodd a goruchwylio digwyddiadau difrifol (diogelu a gwarchod y cyhoedd) wedi'u crybwyll mewn nifer o ddogfennau allweddol, y dylai timau troseddau ieuenctid eu hystyried yn strategol ac yn weithredol. Mae'r rhain i gyd yn parhau i fod yn berthnasol:

Gweithdrefnau Diogelu Cymru (2019)

Llywodraeth Cymru – Cadw Dysgwyr yn Ddiogel (2022)

Safonau ar gyfer Plant yn y System Cyfiawnder Ieuenctid (2019)

Llawlyfr Canllawiau Arolygu Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid Arolygiaeth Prawf EF (adolygwyd 2021)

Canllawiau Rheoli Achosion y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2014) (gan gynnwys adrannau wedi'u diweddaru 2019)

Partneriaethau troseddau ieuenctid modern (2013)

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Rhan 7 (Diogelu)

Iechyd Cyhoeddus Cymru – Gweithdrefn Adrodd Digwyddiadau (2013)

Ymateb Gweithdrefnol Iechyd Cyhoeddus Cymru i Farwolaethau Annisgwyl yn ystod Plentyndod (PRUDiC)

**Er mwyn eglurder, os bydd digwyddiad yn digwydd yn y ddalfa, dylech roi gwybod i Dîm Lleoli'r Gwasanaeth Dalfeydd Ieuenctid drwy ffonio ei rif ffôn 24 awr: 0345 36 36 36 3.**

**ATODIAD 2**

**Trosedd sy’n gysylltiedig â therfysgaeth**

Mae trosedd sy’n gysylltiedig â therfysgaeth yn cynnwys troseddau o dan ddeddfwriaeth terfysgaeth a throseddau eraill yr ystyrir eu bod yn gysylltiedig â therfysgaeth.

Diffinnir terfysgaeth yn gyffredin fel gweithredoedd treisgar (neu fygythiad gweithredoedd treisgar) sydd â’r bwriad o greu ofn (terfysgaeth), a gyflawnir at nod economaidd, crefyddol, gwleidyddol neu ideolegol, ac sy’n targedu neu’n anwybyddu diogelwch pobl nad ydynt yn ymladdwyr (e.e. personél milwrol niwtral neu sifiliaid) yn fwriadol.

Diffinnir terfysgaeth yn Neddf Terfysgaeth 2000 (TACT 2000) ac mae’n golygu defnyddio neu fygwth gweithredu lle mae:

1. Y weithred:

- yn cynnwys trais difrifol yn erbyn unigolyn
- yn cynnwys difrod difrifol i eiddo
- yn peryglu bywyd unigolyn, heblaw am fywyd yr unigolyn sy’n cyflawni’r weithred
- yn creu risg ddifrifol i iechyd neu ddiogelwch y cyhoedd neu ran o’r cyhoedd
- wedi’i gynllunio i ymyrryd yn ddifrifol â system electronig neu i amharu’n ddifrifol arni, ac

1. Mae’r defnydd neu’r bygythiad wedi’i gynllunio i ddylanwadu ar y llywodraeth neu i ddychryn y cyhoedd neu ran o’r cyhoedd.
2. Gwneir y defnydd neu’r bygythiad at ddiben hyrwyddo achos gwleidyddol, crefyddol neu ideolegol.
3. Pan fo’r defnydd neu’r bygythiad o weithredu fel y’i diffinnir uchod yn cynnwys defnyddio arfau tanio neu ffrwydron, mae bob amser yn derfysgaeth, p’un a ydyw’r amod yn (2) uchod wedi’i fodloni ai peidio.

**ATODIAD 3**

**Unigolyn ifanc wedi dioddef anaf a allai fygwth bywyd**

Pob anaf a allai fygwth bywyd, a ddioddefwyd gan unigolyn ifanc ac a achoswyd gan y canlynol:

- anffawd, e.e. gorddos o gyffuriau, gyrru hwyl
- ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n cymryd risgiau
- hunan-niweidio

**Atodiad 4**

**Canllawiau ar ddiffinio ymgais i gyflawni hunanladdiad**

Gall fod yn anodd iawn adnabod digwyddiad o 'ymgais i gyflawni hunanladdiad', a gall ymddygiad o hunan-niweidio peryglus lle nad oes bwriad amlwg i roi diwedd ar fywyd fod yr un mor beryglus ag ymgais ar y cyd i gyflawni hunanladdiad. Nid yw diffinio'r ymddygiadau hyn yn wyddoniaeth fanwl gywir ond dylai gael ei lywio gan asesiadau gan glinigwyr iechyd neu weithwyr proffesiynol iechyd meddwl lleol.

Wrth ystyried a oes angen hysbysiad ac a oes modd dysgu o achos sy'n ymwneud ag ymgais tybiedig i gyflawni hunanladdiad, dylai ymarferwyr a rheolwyr ystyried ymddygiadau yn y gorffennol, barn gweithwyr proffesiynol eraill, lefel risg yr unigolyn ifanc dan sylw, ei feddyliau a'i deimladau (os yw'n bosibl asesu hyn ar adeg yr hysbysu) a'r risgiau yn y dyfodol o beidio ag adolygu'r achos.

**ATODIAD 5**

**Adolygiad achos difrifol trefniadau amlasiantaethol ar gyfer amddiffyn y cyhoedd**

Diben adolygiad achos difrifol trefniadau amlasiantaethol ar gyfer amddiffyn y cyhoedd yw archwilio a gafodd y trefniadau amlasiantaethol ar gyfer amddiffyn y cyhoedd eu cymhwyso'n effeithiol, ac a oedd yr asiantaethau wedi cydweithio i wneud popeth o fewn eu gallu rhesymol i reoli'r risg o droseddu pellach yn y gymuned yn effeithiol.

Nodau adolygiad achos difrifol trefniadau amlasiantaethol ar gyfer amddiffyn y cyhoedd fydd canfod a oes gwersi i'w dysgu, eu nodi'n glir, penderfynu sut y bydd gweithredu arnynt ac, o ganlyniad, llywio datblygiad polisïau a gweithdrefnau y trefniadau amlasiantaethol ar gyfer amddiffyn y cyhoedd yn y dyfodol er mwyn amddiffyn y cyhoedd yn well. Gall hefyd nodi meysydd o arferion da.

Rhaid i'r Bwrdd Rheoli Strategol gomisiynu adolygiad achos difrifol trefniadau amlasiantaethol ar amddiffyn y cyhoedd os yw'r **ddau** amod canlynol yn berthnasol:

- Roedd y troseddwr trefniadau amlasiantaethol ar gyfer amddiffyn y cyhoedd (mewn unrhyw gategori) yn cael ei reoli ar lefelau 2 neu 3 pan gyflawnwyd y drosedd, neu ar unrhyw adeg yn ystod y 28 diwrnod cyn i'r drosedd gael ei chyflawni.
- Y drosedd yw llofruddiaeth, ymgais i lofruddio, dynladdiad, treisio, neu ymgais i dreisio.

Ni ddylid dosbarthu na chyhoeddi'r adroddiad yn eang, a dim ond ar awdurdod cadeirydd y bwrdd rheoli cysgodol y dylid ei rannu ag eraill. Mae amseriad yr adroddiad yn hanfodol, ac efallai y bydd yn rhaid gohirio ei ddosbarthu pe bai'n cael effaith andwyol ar unrhyw achosion troseddol sy'n parhau. Mewn achosion o amheuaeth, dylai cadeirydd y bwrdd rheoli cysgodol gysylltu â'r swyddog ymchwilio.

Dylid cynhyrchu adroddiad trosolwg o fewn mis i gwblhau adroddiad adolygiad achos difrifol trefniadau amlasiantaethol ar gyfer amddiffyn y cyhoedd. Dylai'r adroddiad trosolwg nodi'n glir pa asiantaeth sy'n gyfrifol am gyflawni'r cynllun gweithredu.